A oes hawl gennyf i gael prawf llygaid os wyf yn gweithio gyda VDU?

Y rheoliadau sy'n trafod gwaith VDU yw Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cyfarpar Sgrîn Arddangos) 1992.

Mae Rheoliad 5 yn trafod cyfrifoldeb y cyflogwr i ddarparu profion llygaid ac yn nodi:

Pan fydd person

- eisoes yn ddefnyddiwr ar y dyddiad y daeth y rheoliadau hyn i rym; neu
- yn gyflogai nad yw'n defnyddio cyfarpar sgrîn arddangos yn gyson fel rhan arwyddocaol o'i waith arferol ond sydd am ddod yn ddefnyddiwr yn y gwaith lle y mae eisoes wedi'i gyflogi,

Mae'n rhaid i'w gyflogwr sicrhau ei fod yn darparu, ar ei gais, brawf llygaid priodol, ac mae'n rhaid i berson cymwys cynnal prawf o'r fath.

Mae'r canllaw yn nodi:
Mae gan gyflogwyr ddyletswydd i sicrhau darpariaeth briodol o brofion llygaid ar gais

- i'w cyflogeion a oedd eisoes yn ddefnyddwyr pan ddaeth y Rheoliadau i rym;
- ac (o hynny ymlaen) i unrhyw gyflogeion nad oeddent yn ddefnyddwyr sydd yn dod yn ddefnyddwyr.

Nid yw'r Rheoliadau yn gosod dyletswydd ar gyflogwyr i gynnig profion llygaid i bobl nad ydynt yn eu cyflogaeth, fel ymgeiswyr ar gyfer swyddi. Fodd bynnag, pan fydd rhywun wedi'i recriwtio ac yn gweithio gyda chyfarpar sgrîn arddangos i'r graddau y byddant yn dod yn ddefnyddiwr, bydd Rheoliad 5(1)(b) yn dod yn gymwys. Gan hynny pan fydd cyflogai o'r fath sy'n newydd gael ei recriwtio - p'un a yw wedi bod yn ddefnyddiwr mewn unrhyw swydd flaenorol mewn busnes gwahanol - yn gofyn am brawf llygaid, dylai ei gyflogwr newydd drefnu prawf priodol. Dylid cynnal y prawf cyn bod y cyflogai newydd ei recriwtio yn dod yn ddefnyddiwr, fel sy'n ofynnol gan Reoliad 5(2)(b). Nid yw hyn yn golygu bod rhaid i'r recriwtiaid newydd gael brawf cyn gwneud unrhyw waith ar sgrîn arddangos, ond byddai'n rhaid iddynt gael prawf (os byddant yn gofyn am un cyn gwneud digon o waith ar sgrîn arddangos i hyn gael ei ystyried yn rhan arwyddocaol o'u gwaith arferol.

Cyfeiriadau
L26, Display screen equipment work, (ISBN 0717625826 – ar gael gan HSE Books).

- **Working with VDU's – taflen am ddim** [740kb]